**PWYLLGOR DEDDF YSTÂD YR EGLWYS YNG NGHYMRU**

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod Eithriadol o Bell, 6 Tachwedd, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd M.R. Wilson (Cadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, H.C. Hamilton, M.J. Hooper and M.J.G. Morgan

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr P. Drake (Is-Gadeirydd) a J.E. Charles.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Medi, 2023 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL 2023/24 CYFRAN 3 (CAC) –

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo'r cais unigol am gymorth ariannol, fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad.

(2) Bod uchafswm y dyfarniad yn cael ei gynyddu i £10,000 ar sail prawf tan 1 Ebrill 2025.

(3) Bod y broses o wneud cais am grant yn cael ei hyrwyddo drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol corfforaethol y Cyngor.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaeth ddilynol yn y cyfarfod.

(2) Ymgymryd â chyfnod prawf o 18 mis gyda'r gobaith o gynyddu nifer y ceisiadau a dderbynnir yn ymwneud â chynlluniau ariannol mwy.

(3) Cynyddu nifer y ceisiadau am arian Grant Deddf Degwm, codi ymwybyddiaeth o argaeledd y gronfa a gwahodd ceisiadau pellach i'w hystyried gan y Pwyllgor.

EITEM AGENDA 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2022/23 (CAC) -

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2022/23, fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad, ac awdurdodi'r Cadeirydd i'w lofnodi ar ran yr ymddiriedolwyr.

Rheswm dros y penderfyniad

O ystyried cynnwys yr adroddiad yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011, a Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn cael eu cymeradwyo gan yr Ymddiriedolwyr fel corff yn unol â'u gweithdrefnau gweinyddol arferol.